

Llywydd Undeb y Myfyrwyr

Y Rôl:

Etholir Llywydd Undeb y Myfyrwyr i arwain cynrychiolaeth poblogaeth myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ym mhob mater sy'n ymwneud â'u profiad prifysgol. Mae hon yn swydd llawn amser, â thâl. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus naill ai'n cymryd blwyddyn allan o astudio neu'n ymgymryd â'r rôl ar ôl graddio.

Mae'r rôl yn un cyflym, prysur ac â phroffil uchel. Bydd angen i chi gydbwyso arweinyddiaeth, ymgyrchu a chynrychiolaeth wrth reoli gofynion cystadleuol, ymgysylltu â rhanddeiliaid uwch, ac ymateb i ystod eang o anghenion myfyrwyr. **Mae'n gofyn am broffesiynoldeb, gwydnwch, a dull Gweithredu gweithgar o ddatrys problemau.**

Fel Llywydd yr UM, byddwch chi yn:

ARWAIN	llais y myfyrwyr ar y lefel uchaf fel prif gynrychiolydd etholedig Undeb Myfyrwyr Caerdydd
CYNRYCHIOLI	'r Undeb gyda phroffesiynoldeb a hyder ar draws pwyllgorau'r Brifysgol, cyrff sector, a sianeli cyfryngau
YMGYSYLLTU	gyda myfyrwyr ar draws pob math a lefel o astudio, gan sicrhau bod eu barn yn llunio pob agwedd ar eich gwaith
CEFNOGI	gwaith swyddogion etholedig, cadeirio cyfarfodydd tîm, a chydlynu ymgyrchoedd blaenoriaethau tîm
PENNU	cyfeiriad gwleidyddol yr Undeb, sefydlu nodau tîm a sicrhau bod blaenoriaethau myfyrwyr yn cael eu dilyn drwodd
CADEIRIO	Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Bwrdd y Cyfarwyddwyr, gan arwain penderfyniadau llywodraethu ac ariannol mawr
CYDWEITHIO	gyda staff a swyddogion uwch i ddylanwadu ar strategaeth y Brifysgol trwy bwyllgorau fel y Cyngor a'r Senedd
CYNNAL	prosesau democrataidd yr Undeb trwy gyflawni mandadau polisi a gweithio'n agos gyda Senedd y Myfyrwyr a'ch Pwyllgor Gweithredol
YMGYRCHU	prosesau democrataidd yr Undeb trwy gyflawni mandadau polisi a gweithio'n agos gyda Senedd y Myfyrwyr a'ch Pwyllgor Gweithredol
HERIO	a dwyn y Brifysgol i gyfrif gan roi buddiannau myfyrwyr yn gyntaf

Wythnos Arferol

Nid oes dwy wythnos yr un fath. Byddwch yn cydbwyso mynychu pwyllgorau lefel uchel y Brifysgol ag arwain y tîm swyddogion, cydlynu ymgyrchoedd, siarad â myfyrwyr, gweithio ar eich manifestô, ac ymateb i anghenion myfyrwyr sy'n newid yn gyflym. Bydd rhai cyfarfodydd yn cael eu trefnu ymhell ymlaen llaw, bydd eraill yn digwydd ar fyr rybudd. Mae'r rôl yn cyfuno arweinyddiaeth, creadigrwydd, cynrychiolaeth a gwydnwch.



Rhai o'ch cyfrifoldebau rheolaidd:

- Cyfarfod â'r Is-ganghellor neu uwch arweinwyr y Brifysgol
- Siarad mewn digwyddiadau a chynrychioli Undeb y Myfyrwyr yn allanol
- Cynllunio a chyflwyno ymgyrchoedd, digwyddiadau a mentrau unigol ac ar y cyd gyda'r tîm swyddogion
- Cadeirio a mynychu cyfarfodydd llywodraethu mewnol

Sgiliau y byddwch chi'n eu datblygu:	Cyfleoedd a manteision:
• Ymgyrchu ac ymgysylltu gwleidyddol • Rheoli amser a llwyth gwaith • Sgiliau trefnu a chynllunio • Gwaith tîm a chydweithio • Dylunio a chyflawni prosiectau • Negodi a diplomyddiaeth • Rhwydweithio a dylanwad rhanddeiliaid • Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd	• Swydd llawn amser, â thâl gyda gwyliau blynyddol a mynediad at fuddion staff CSU • Hyfforddiant a mentora mewnol gan staff UM • Datblygiad proffesiynol a chefnogaeth un-i-un • Profiad unigryw mewn llywodraethu, arweinyddiaeth a dylanwad • Cyfle i lunio newid go iawn ar y lefel uchaf yn UM a'r Brifysgol • Ychwanegiad nodedig at eich CV a datblygiad gyrfa • Adeiladu rhwydweithiau parhaol yn lleol ac yn genedlaethol

Disgwyliadau

Mae hon yn rôl arweinyddiaeth sy'n gofyn am ffocws, ymrwymiad a phroffesiynoldeb. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- Cynnal presenoldeb cyson a phroffesiynol drwy gydol yr wythnos waith, gan ymroi'n llawn i gyfarfodydd, prosiectau a chyfrifoldebau tîm, a chymryd dull gweithredol ac ymarferol o gyflawni'r rôl
- Cyfathrebu a chydweithio'n effeithiol â myfyrwyr, staff UM, rhanddeiliaid y Brifysgol a phartneriaid allanol
- Gweithio'n broffesiynol: mynychu cyfarfodydd, cynllunio gwaith, dilyn camau gweithredu a chwrdd â therfynau amser
- Rheoli gofynion cystadleuol, addasu'n gyflym i newid, a chynnal gwydnwch mewn amgylchedd cyflym ac yn aml yn adweithiol
- Cynnal gwerthoedd a chod ymddygiad yr UM bob amser
- Cymryd rhan ym mhob proses atebolrwydd ac adolygu berthnasol, gan gynnwys cyfarfodydd gyda'r Panel Atebolrwydd (a gynhelir dair gwaith y flwyddyn)
- Cyflawni eich ymrwymadau maniffesto a gweithio i weithredu polisi a basiwyd gan fyfyrwyr

Darperir cefnogaeth lawn drwy strwythur cefnogi swyddogion yr UM, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda'ch cyswllt staff, cyfaill SMT, a thimau mewnol yr UM.



Cymhwysedd

I fod yn gymwys i sefyll am y rôl hon, rhaid i chi fod yn fyfyrwr presennol ym Mhrifysgol Caerdydd neu'n Swyddog Sabothol presennol ar ddiwedd y cyfnod enwebu. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus naill ai'n cymryd blwyddyn allan o astudio neu'n ymgymryd â'r rôl ar ôl graddio.

I fod yn gymwys rhaid i bob ymgeisydd hefyd basio'r polisi 'Addas i Sefyll'. Mae hyn yn golygu nad oes gan ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad, hyd y gwyddant ac ar adeg cau'r enwebiadau, unrhyw ymchwiliadau presennol na chwynion blaenorol wedi'u cadarnhau yn eu herbyn mewn materion sy'n ymwneud â chamymddwyn rhywiol, ymddygiad rhywiol amhriodol, cam-drin perthynas a pherthnasoedd afiach, ymosodiad rhywiol, trais rhywiol, trais, cam-drin, aflonyddu, bwlio, troseddau casineb, ymddygiad troseddol, ymosodiad corfforol, neu wahaniaethu. Ni fydd unrhyw fyfyrwr sy'n methu â chadarnhau eu bod yn 'addas i sefyll' yn gymwys i sefyll yn yr etholiad.

Sut i enwebu:

- Enwebwch eich hun [yma](#).
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr [yma](#).
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tîm Etholiadau ar elections@cardiff.ac.uk.

